


COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Canllaw	G033
 1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Adnabod Peryglon	Rhifyn	1
		Dyddiad	Mehefin 2022
		Tudalen	1 o 5

Adnabod Peryglon

Diben cyffredinol y broses adnabod Peryglon yw adnabod y peryglon sy'n codi neu a allai godi yng ngweithgareddau'r Brifysgol, a sicrhau bod y risgiau i bobl sy'n codi o'r peryglon hyn yn cael eu hasesu, eu blaenoriaethu a'u rheoli i ddileu peryglon neu leihau risgiau i lefelau derbyniol.

Mae gan beryglon y potensial i achosi anafiadau, niwed neu afiechyd. Mae angen eu hadnabod cyn gallu asesu'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r peryglon hyn ac, os nad oes mesurau rheoli'n bodoli, neu os yw'r mesurau rheoli presennol yn annigonol, dylid cyflwyno mesurau rheoli effeithiol yn unol â hierarchaeth rheoli.

Dylai adnabod peryglon geisio pennu'n rhagweithiol bob ffynhonnell, sefyllfa neu weithred (neu gyfuniad o'r rhain), sy'n codi o weithgareddau sefydliad, sydd â photensial i niweidio o ran anafiadau neu afiechyd. Mae enghreifftiau'n cynnwys:


- Ffynonellau (e.e. symud peiriannau, ymbelydredd neu ffynonellau ynni);
- Sefyllfaoedd (e.e. gweithio mewn mannau cyfyng, gweithio ar uchder);
- Gweithredoedd (e.e. codi a chario, gwisgo PPE).

Dylai adnabod peryglon ystyried y gwahanol fathau o beryglon yn y gweithle, gan gynnwys:

1. Corfforol (e.e. llithro, baglu a chwympo, maglu, sŵn, dirgrynu, ffynonellau ynni niweidiol);
2. Cemegol (e.e. mewnanadlu, cyffwrdd neu amlyncu cemegau);
3. Biolegol (e.e. cyswllt ag alergenau neu bathogenau fel bacteria neu feirysau);
4. Seicogymdeithasol (e.e. bygwth trais corfforol, bwlio neu frawychu);

Dylai proses adnabod peryglon y Brifysgol ystyried y canlynol:

- Gweithgareddau rheolaidd ac afreolaidd fel glanhau a chynnal a chadw peiriannau, tywydd eithafol, ailwampio a dechrau/diffodd offer;
- Gweithgareddau'r holl unigolion sydd â mynediad at y gweithle gan gynnwys contractwyr, ymwelwyr a'r rheini sy'n gweithio gartref;
- Ymddygiad, galluoedd dynol a ffactorau dynol eraill;
- Peryglon a nodwyd yn deillio o'r tu allan i'r gweithle a all effeithio'n negyddol ar iechyd a diogelwch unigolyn dan reolaeth y sefydliad yn y gweithle;
- Peryglon a grëwyd yn ardal y gweithle gan weithgareddau'n gysylltiedig â gwaith dan reolaeth y sefydliad;
- Seilwaith, offer a deunyddiau yn y gweithle, boed wedi'u darparu gan y sefydliad neu eraill;
- Newidiadau neu newidiadau arfaethedig yn y sefydliad neu ei weithgareddau;
- Addasiadau i'r system iechyd a diogelwch galwedigaethol, gan gynnwys newidiadau dros dro, a'u heffaith ar weithrediadau, prosesau a gweithgareddau;
- Unrhyw ymrwymadau cyfreithiol perthnasol yn ymwneud ag asesu risg a chyflwyno mesurau rheoli angenrheidiol;
- Cynllun ardaloedd gwaith, prosesau, gosodiadau, peiriannau/offer, gweithdrefnau gweithredu a threfn gwaith, gan gynnwys eu haddasu i alluoedd dynol;
- Sefyllfaoedd o argyfwng posibl;

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Canllaw	G033	
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Adnabod Peryglon		Rhifyn	1
			Dyddiad	Mehefin 2022
			Tudalen	2 o 5

- Newidiadau mewn dealltwriaeth a gwybodaeth am beryglon;
- Peryglon newydd neu wedi newid.

Matrics Peryglon Adrannol

Atodir matrics peryglon y Brifysgol yn yr atodiad a bydd Cyfadrannau ac Adrannau Gwasanaethau Proffesiynol y Brifysgol yn cwblhau'r matrics peryglon ar gyfer eu meysydd cyfrifoldeb eu hunain.

Camau cwblhau'r Matrics Peryglon.

1. Adolygu'r rhestr o beryglon (gallwch hefyd ddefnyddio'r daflen o awgrymiadau Peryglon) i weld a yw'r peryglon yn bresennol yn eich ardal.
2. Os yw'r peryglon yn bresennol dewiswch un o'r categorïau ac ateb y cwestiynau isod.
 - **3** - Peryglon yn bresennol – cyflawnir y gweithgaredd yn rheolaidd (dyddiol/wythnosol)
 - **2** – Peryglon yn bresennol – cyflawnir y gweithgaredd yn achlysurol (misol – 6 mis)
 - **1** – Peryglon yn bresennol – cyflawnir y gweithgaredd yn anaml
 - Aseiad risg wedi'i gyflawni? **Oes neu Nac oes**
 - Proses aseidiadau risg dynamig ar gael? **Oes neu Nac oes**
 - Gweithdrefn ar waith ac unigolion sy'n cyflawni'r weithred yn gwybod amdani? **Oes neu Nac oes**


Perthynas â'r Weithdrefn Asesu Risg - P019

BETH	PWY	PRYD	SUT
ALLBWN: F015 Matrics Peryglon	Cynrychiolwyr Grŵp Gweithrediadol Iechyd Diogelwch ac Amgylchedd		Defnyddio F015 Matrics Peryglon
12 ALLBWN:	F015 Matrics Peryglon Asesydd Risg / Rheolwr/wyr Adran	Wrth ddechrau camau cywiro / ataliol	Asesydd risg wedi'i hyfforddi neu weithgaredd gwaith yn dechrau peryglon newydd fel y'i nodwyd.

Rhestr Wirio Peryglon

Bwriad y rhestr wirio hon nad yw'n gynhwysfawr yw cynorthwyo'r broses adnabod peryglon.

Peryglon	Oes/Nac oes
Anifeiliaid	
Asbestos	
Gweithgareddau Biolegol	
Gwastraff Clinigol	
Mannau cyfyng	
Contractwyr a Darparwyr Gwasanaeth	
Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (yn cynnwys gwastraff gwenwynig)	
Rheoliadau Sylweddau Peryglus ac Atmosfferau Ffrwydrol	


COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Canllaw	G033
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Adnabod Peryglon		Rhifyn
			1
			Dyddiad
		Mehefin 2022	
		Tudalen	3 o 5

Cyfarpar Sgrin Arddangos (gan gynnwys gweithio gartref)	
Diogelwch Trydan	
Digwyddiadau (staff a'r cyhoedd)	
Amodau Tywydd Eithafol	
Teithiau Gwaith/Maes	
Diogelwch Tân	
Hylendid Bwyd	
Diogelwch Nwy	
Addasu Genetig	
Gwydro	
Ffactorau dynol	
Gwastraff Peryglus	
Plwm yn y Gwaith	
Systemau Pwysedd Uchel (gwresogi/oeri ac ati)	
Legionella	
Offer Codi a Gostwng	
Systemau Awyru Gwacáu Lleol	
Gweithio Arunig	
Codi a Chario	
Sŵn yn y Gwaith	
Mynediad Agored	
Diogelwch a Sicrwydd Personol	
Ymbelydredd – Optegol Artiffisial	
Ymbelydredd – Meysydd Electromagnetig	
Ymbelydredd - Ïoneiddio	
Llithro, Baglu a Chwyrmpo	
Ffactorau Cymdeithasol	
Teithio (yn cynnwys Rheoli Risgiau Ffordd)	
Straen	
Dirgrynu	
Gweithio ar Uchder	
Gweithio oddi ar y Campws	
Offer Gwaith	
Gweithio ar/ger Dŵr (hwylio, tirlfesur, samplu ac ati)	

Matrics peryglon Prifysgol Aberystwyth – Matrics Archwaeth Risg

Dylid defnyddio'r matrics hwn fel canllaw ar gyfer asesu archwaeth risg ochr yn ochr â'r Datganiad Archwaeth Risg (<https://www.aber.ac.uk/cy/pag/>). Dylid cyfeirio unrhyw risgiau strategol lefel uchel at y Cyngor.


Archwaeth Risg	Meysydd Risg Enghreifftiol (Gall newid)	Effaith Bosibl (Ni fydd pob un yn berthnasol bob tro)	Gwobr Bosibl
Archwaeth Risg Uchel: Mae'r Brifysgol yn barod i dderbyn risgiau er mwyn	<ul style="list-style-type: none"> Arloesi / Menter Cyflawni Amcanion Strategol Cyflenwi a Recriwtio Rhyngwladol 	Enw da: Posiblwydd o niwed os nad yw mentrau'n cyflawni. Cyfreithiol: Risg o broblem gyfreithiol yn codi o fentrau	Ariannol: Incwm ychwanegol o dros 5% trosiant Enw da: Hwb i enw da'r Brifysgol ar raddfa genedlaethol a rhyngwladol. Gallai godi safle yn y Cynghreiriau.

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Canllaw	G033
 1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Adnabod Peryglon		Rhifyn
			1
			Dyddiad
		Mehefin 2022	
		Tudalen	
		4 o 5	

<p>datblygu ei hamcanion strategol neu am fod y gwobrau posibl yn cael eu hystyried yn sylweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Newid dulliau cyflenwi yn cynnwys DL technoleg uchel Recriwtio myfyrwyr israddedig llawn amser Cartref/UE 	<p>Myfyrwyr: Effaith negyddol gyfyngedig ar brofiad y myfyriwr (e.e. gwaith adeiladu); rhywfaint o aflonyddwch wrth i systemau newid. Staff: Rhywfaint o aflonyddwch i weithgareddau dydd i ddydd. Dim mwy na 5 diwrnod o amser staff uwch</p>	<p>Cyfreithiol: Amherthnasol Myfyrwyr: Gwella profiad y myfyriwr yn sylweddol, a/neu 10-20% o gynnydd mewn niferoedd myfyrwyr / 40% o gynnydd mewn ceisiadau. Staff: Gwella boddhad staff yn sylweddol a photensial ar gyfer datblygu staff; recriwtio a chadw.</p>
<p>Archwaeth Risg Canolig: Mae'r Brifysgol yn barod i dderbyn rhai risgiau i wella profiad y myfyriwr neu gyflenwi targedau strategol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Datblygu Ystadau Buddsoddi mewn Cyfleusterau Partneriaethau Ymchwil 	<p>Ariannol: Buddsoddi / colli £500k yn bosibl Enw da: Fel uchod Cyfreithiol: Fel uchod Myfyrwyr: Effaith negyddol bosib yn y tymor byr ar brofiad y myfyriwr (e.e. gwaith adeiladu ac ati) Staff: Dros 5 diwrnod o amser staff uwch</p>	<p>Ariannol: Incwm ychwanegol o 2% trosiant Enw da: Gwella enw da ar lefel genedlaethol neu leol. Cyfreithiol: Gwella cydymffurfiaeth. Myfyrwyr: Gwelliannau i brofiad y myfyriwr yn y tymor canolig / hir. 5-10% o gynnydd mewn niferoedd myfyrwyr / 25 % o gynnydd mewn ceisiadau. Staff: Gwella boddhad staff yn y tymor canolig / hir.</p>
<p>Archwaeth Risg Canolig/Isel: Yn gyffredinol mae'r Brifysgol yn wrth-risg ond bydd yn derbyn rhai risgiau bach fel rhan angenrheidiol o weithrediadau dydd i ddydd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cyflenwi gwasanaeth Arloesi TG Ansawdd Addysgu 	<p>Ariannol: Buddsoddi hyd at 2% trosiant, gan gynnwys amser staff Enw da: Fel uchod. Cyfreithiol: Fel uchod Myfyrwyr: Fel uchod. Staff: Angen amser sylweddol (dros 45 diwrnod o staff uwch) ar gyfer prosiectau penodol</p>	<p>Ariannol: Posiblirwydd cyfyngedig o eillion ariannol / sicrhau busnes newydd Enw da: Effaith gadarnhaol gyfyngedig ar enw da. Cyfreithiol: Dim Myfyrwyr: Gwelliant cyfyngedig ar unwaith i foddhad myfyrwyr, o bosibl un maes yn unig yn yr NSS. Cynyddu niferoedd myfyrwyr mewn rhai meysydd. Staff: Canlyniadau cadarnhaol cyfyngedig i niferoedd bach o staff.</p>
<p>Archwaeth Risg Isel: Bydd y Brifysgol yn ceisio osgoi unrhyw risgiau yn y meysydd hyn a lle nad oes modd osgoi risg, bydd yn ceisio lliniaru cymaint â phosibl.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Cydymffurfiaeth Reoliadol Iechyd a Diogelwch Cydymffurfiaeth Amgylcheddol 	<p>Ariannol: Buddsoddi dros 2% trosiant, naill ai mewn arian parod neu amser/ymdrech staff Enw da: Niwed i enw da ar lefel genedlaethol Cyfreithiol: Torri cydymffurfiaeth yn ddifrifol gan arwain at achos cyfreithiol a chosbau trwm posibl. Staff: Perygl ffisegol i staff ac effaith negyddol ddifrifol ar foddhad staff.</p>	<p>Ni fyddai unrhyw wobwr bosibl yn gwneud yn iawn am gymryd y lefelau hyn o risg.</p>
<p>Bydd y Brifysgol yn mynd ati i liniaru i'r eithaf unrhyw risgiau sydd â'r effeithiau posibl hyn</p>		<ul style="list-style-type: none"> Perygl corfforol / colli bywyd Effaith negyddol ddifrifol ar brofiad y myfyriwr Colled ariannol o dros 10% trosiant Niwed difrifol i enw da ar lefel genedlaethol neu ryngwladol. 	

Gwybodaeth Ychwanegol

- Polisi a Gweithdrefnau Rheoli Risg
- P019 Gweithdrefn Asesu Risg
- G013 Canllaw Asesu Risg
- ISO 45001 – Cymal 6.1.2: 8

COFRESTR CANLLAW SYSTEM RHEOLI IECHYD A DIOGELWCH AC AMGYLCHEDD		Canllaw	G033
 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY	Canllaw Adnabod Peryglon	Rhifyn	1
		Dyddiad	Mehefin 2022
		Tudalen	5 o 5

- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith (Diwygio) 2006:
<https://www.legislation.gov.uk/uksi/2006/438/note/made>
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch HSG65 Rheoli ar gyfer Iechyd a Diogelwch:
<https://www.hse.gov.uk/pubns/priced/hsg65.pdf>
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Asesu Risg: Canllaw cryno ar reoli risgiau yn y gweithle:
<https://www.hse.gov.uk/pubns/indg163.pdf>
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch Rheoli Risgiau ac Asesu Risg yn y Gwaith:
<https://www.hse.gov.uk/simple-health-safety/risk/index.htm>
- Tudalen Asesu Risg Prifysgol Aberystwyth: <https://www.aber.ac.uk/cy/hse/proc-prac/risk-assessment/>